**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JJ/03049/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

14 Rhagfyr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd yn gofyn am fy marn ar sicrhau bod perchnogion ail gartrefi a chartrefi gwyliau yng Nghymru yn cofrestru i bleidleisio yn eu prif gyfeiriad yn unig, mewn etholiadau datganoledig a lleol.

Mae cyfraith etholiadol yng Nghymru a Lloegr yn caniatáu i berson gael ei gofnodi ar fwy nag un gofrestr os yw'n preswylio mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu, os yw person wedi cofrestru mewn dau awdurdod lleol gwahanol, ei fod yn gallu pleidleisio yn y ddau awdurdod ar yr un diwrnod etholiad os ydynt yn bodloni'r meini prawf preswylio ar ddiwrnod yr etholiad. Ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, gall etholwr bleidleisio mewn hyd at ddwy ardal llywodraeth leol os ydynt wedi'u cofrestru. Ar gyfer etholiadau'r Senedd, dim ond mewn un etholaeth y caiff etholwr bleidleisio.

Nid yw bod yn berchen ar ail gartref yn golygu y gall person bleidleisio mewn etholiadau yn yr etholaeth honno'n awtomatig. Rhaid iddynt brofi eu bod yn preswylio yn yr ardal ac mae preswyliaeth wedi'i rhagnodi yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac wedi'i hen sefydlu mewn cyfraith achosion.

Yn fy marn i, ar yr amod bod y meini prawf preswylio sefydledig yn cael eu bodloni, y dylai perchnogion ail gartref cael pleidleisio mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru. Os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf preswylio, ni ddylent fod yn pleidleisio mewn etholiadau o'r fath, sef yr hyn y mae'r gyfraith eisoes yn ei ragnodi. Byddai newid y gyfraith hon yn achosi gwahaniaeth rhwng pleidleiswyr Cymru a Lloegr ac nid wyf am weld neb yn cael ei ddifreinio yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er nad oes unrhyw wiriadau systematig, fel y dywedodd y Comisiwn Etholiadol, i sicrhau nad yw person yn pleidleisio ddwywaith yn yr un etholiad, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hyn yn digwydd fel mater o drefn, a phe bai'n hynny yn digwydd, gellid cymryd camau lle'r oedd trosedd etholiadol wedi'i chyflawni.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government